

Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Newport Consulting
Rooms, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 5 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle y bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle bo diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae OCI Consulting Cyf wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn Newport Consulting Rooms, 44 Commercial Road, Casnewydd, NP20 2PE. Cofrestrwyd y gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gyntaf ar 23 Mehefin 2015.

Yn unol ag amodau'r cofrestriad, dim ond y gwasanaethau canlynol y gellir eu darparu:

- Ffisiotherapi
- Podiatreg/trin traed
- Enwaedu gwrywod
- Clinig teithio
- Therapiau amgen
- Ymarferydd cyffredinol
- Gwasanaethau iechyd galwedigaethol
- Triniaethau cosmetig/esthetig.

Gwasanaethau podiatreg a chlinig teithio yn unig a oedd yn cael eu darparu ar adeg yr arolygiad.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r gwasanaeth ar 5 Medi 2016.

4. Crynodeb

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau gofal iechyd. Cafodd trefniadau ar gyfer rhoi digon o wybodaeth i gleifion am eu gofal, a chynllunio gofal sydd hefyd yn ystyried eu hanghenion gofal unigol, eu disgrifio.

Nid oedd unrhyw gleifion yn defnyddio'r ystafelloedd ymgynghori ar adeg ein harolygiad. O'r herwydd, nid oedd yn bosibl canfod safbwyntiau uniongyrchol cleifion ynghylch y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn. Serch hynny, defnyddiai'r gwasanaeth holiaduron i gael adborth gan gleifion ac roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth. Dylid cynnwys crynodeb o'r adborth a gasglwyd gan gleifion yn y canllaw i gleifion.

Canfuom fod trefniadau ar waith er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd angen i bolisi'r gwasanaeth ar ddiogelu gynnwys mwy o fanylion ynghylch y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe baent yn amau bod rhywun yn cael eu cam-drin. Hefyd, mae angen llunio a gweithredu polisi rheoli meddyginiaethau. Yn ogystal, gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig (sef y darparwr cofrestredig/perchennog hefyd) geisio cyngor ynghylch y cyffuriau a'r offer y dylai fod ar gael mewn argyfwng.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r ystafelloedd ymgynghori a dangosai ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion. Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynghylch y wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno i ddangos bod pobl yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Fel y soniwyd uchod, fe wnaethom nodi bod meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny'n arwain o bosibl at ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau gofal iechyd. Cafodd trefniadau ar gyfer rhoi digon o wybodaeth i gleifion am eu gofal, a chynllunio gofal sydd hefyd yn ystyried eu hanghenion gofal unigol, eu disgrifio.

Nid oedd unrhyw gleifion yn defnyddio'r ystafelloedd ymgynghori ar adeg ein harolygiad. O'r herwydd, nid oedd yn bosibl canfod safbwyntiau uniongyrchol cleifion ynghylch y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn. Serch hynny, defnyddiai'r gwasanaeth holiaduron i gael adborth gan gleifion ac roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth. Dylid cynnwys crynodeb o'r adborth a gasglwyd gan gleifion yn y canllaw i gleifion.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol (Safon 2)

Roedd y gwasanaeth yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu ystod o wasanaethau. Roedd y gwasanaethau hyn wedi eu disgrifio o fewn datganiad o ddiben y gwasanaeth a'r canllaw i gleifion. Roedd y datganiad o ddiben hefyd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a sut y gallent gwyno am y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn.

Roedd mynediad ar y gwastad i'r prif adeilad ac i'r ystafelloedd ymgynghori. Golygai hyn y gallai pobl ag anawsterau symudedd a'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad yn rhwydd. Roedd y cyfleusterau ar un llawr, a oedd yn caniatáu mynediad rhwydd at y dderbynfa, yr ystafell aros, yr ystafelloedd ymgynghori a'r cyfleusterau toiled anabl.

Ymgysylltu â Dinasyddion ac Adborth (Safon 5)

Roedd gan y gwasanaeth system ar gyfer canfod a gweithredu ar adborth gan gleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi eu disgrifio o fewn datganiad o ddiben y gwasanaeth a'r canllaw i gleifion ac roeddent yn cynnwys cynnig *Holiadur Boddhad Cleifion* i'w gwblhau gan gleifion. Gwelsom rai holiaduron wedi'u cwblhau a oedd yn brawf bod hyn wedi digwydd. Cynhaliai'r rheolwr cofrestredig (sef y darparwr cofrestredig/perchennog hefyd) yr ystafelloedd ymgynghori adolygiadau chwarterol o'r sylwadau a dderbyniwyd er mwyn adnabod unrhyw feysydd y gellir eu gwella.

Roedd y sampl a welsom o'r holiaduron a gwblhawyd yn nodi bod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwnaethom egluro bod rhaid cynnwys crynodeb o adborth cleifion yn y canllaw i gleifion yn ogystal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cynnwys crynodeb o'r adborth a gasglwyd gan gleifion yn y canllaw i gleifion.

Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8)

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr holl wasanaethau y bwriedir eu darparu ar gael. Roedd y gwasanaethau hynny a oedd yn cael eu darparu yn unol ag amodau cofrestriad y gwasanaeth gydag AGIC.

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal wedi eu disgrifio yn y datganiad o ddiben. Yn gryno, amlinellir ynddo y gallai cleifion ddisgwyl cael eu hasesu gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd priodol ac y byddai eu gofal yn cael ei gynllunio ar sail unigol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bwriad i gyflawni enwaedu gwrywod yn y gwasanaeth. Fel rhan o gofrestrriad y gwasanaeth ag AGIC, gellid ond gwneud hyn am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig. Dylid gwneud hyn yn glir yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth adlewyrchu na fydd enwaedu gwrywod yn digwydd oni bai am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig.

O ystyried natur fewnwithiol triniaethau enwaedu, gwnaethom archwilio'r trefniant hwn yn fanwl. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bydd enwaedu gwrywod yn cael ei wneud gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n arbenigo yn y math hwn o driniaeth. Roedd hyn wedi ei nodi'n glir yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd a'i dîm/thîm yn gyfrifol am gynllunio gofal holl agweddau'r ddarpariaeth. Byddai hyn yn cynnwys trefnu apwyntiadau cleifion, darparu gwybodaeth am y driniaeth a chael y cydsyniad angenrheidiol gan y claf/rhiant, gwneud y driniaeth, a threfnu gofal dilynol fel y bo'n briodol.

Y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld fyddai'n gyfrifol am gofnodion gofal cleifion.

Gwybodaeth a Chydsyniad Cleifion (Safon 9)

Eglurodd y rheolwr cofrestredig mai gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld sydd yn gyfrifol am roi gwybodaeth amserol a hawdd ei chyrraedd i rieni/cleifion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth unigol.

O ran enwaedu gwrywod, lle bo angen cael cydsyniad ysgrifenedig, eglurodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n sicrhau bod proses briodol ar waith cyn darparu'r gwasanaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ynghylch ystod o gyflyrau. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â sut i ofalu am eu hiechyd eu hunain a'i reoli.

Urddas a Pharch (Safon 10) a'r Amgylchedd (Safon 12)

Roedd y gwasanaeth wedi ystyried ffyrdd i hyrwyddo ac amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gwelliannu pellach i'r amgylchedd yn yr arfaeth er mwyn amddiffyn preifatrwydd cleifion ymhellach.

Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth yn nodi'r trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cadw gwybodaeth am gleifion yn ddiogel.

Roedd gan y gwasanaeth dair ystafell ymgynghori a gall y tair ohonynt ddarparu preifatrwydd pan y'i defnyddir. Roedd ffôn ym mhob ystafell fel y gellid cael sgwrs gyfrinachol yn breifat lle bo angen. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau hefyd bod yr ystafelloedd yn rhai gwrthsain er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o allu clywed sgysiaid preifat yn y brif ardal aros.

Drysau gwydr clir oedd y prif ddrysau i mewn i'r gwasanaeth. Golygai hyn y gallai pobl a oedd yn aros yn y fferyllfa a'r siop gyfagos weld cleifion wrth iddynt aros i gael eu gweld. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cydnabod eisoes bod angen gwneud trefniadau i roi gwell preifatrwydd i'r cleifion hynny sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sgriniau a/neu orchuddion ffenestri dan ystyriaeth fel rhan o ddatblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bwriad i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig strategaethau gwahanol i wneud yr amgylchedd yn groesawgar i blant. Roedd y rhain yn cynnwys darparu ystod o deganau ac arddangos lluniau i wneud yr ardal aros yn fwy deniadol i blant. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r rhain yn cael eu rhoi i'r neilltu pan nad oedd eu hangen.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuom fod trefniadau ar waith er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd angen i bolisi'r gwasanaeth ar ddiogelu gynnwys mwy o fanylion ynghylch y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe baent yn amau bod rhywun yn cael eu cam-drin. Hefyd, mae angen llunio a gweithredu polisi rheoli meddyginiaethau. Yn ogystal, gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig (sef y darparwr cofrestredig/perchennog hefyd) geisio cyngor ynghylch y cyffuriau a'r offer y dylai fod ar gael mewn argyfwng.

Gofal sy'n Ddiogel ac yn Glinigol Effeithiol (Safon 7)

Cadarnhaodd trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr holl wasanaethau gofal iechyd y bwriedir eu darparu ar gael. Eglurodd y rheolwr cofrestredig y byddai ef yn gwirio profiad gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld, a gwneud gwiriadau priodol eraill, cyn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaeth o'r ystafelloedd ymgynghori. Byddai'n gwneud hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys a, lle bo'n briodol, eu bod wedi cofrestru â chorff proffesiynol i ddarparu'r gwasanaeth gofal iechyd hwnnw. Roedd tystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion a welsom.

O ran y gwasanaeth enwaedu gwrywod, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n gofyn i weld copïau archwiliadau clinigol cyn sefydlu'r gwasanaeth ac ar adegau rheolaidd yn y cyfamser pan fo'r gwasanaeth yn weithredol. Y bwriad o wneud hyn oedd er mwyn asesu diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Aqored i Niwed (Safon 11)

Roedd gan y gwasanaeth bolisiâu diogelu ysgrifenedig, ond roedd angen i'r rhain gynnwys mwy o fanylion ynghylch sut y dylai staff weithredu pe baent yn amau bod rhywun yn cael eu cam-drin.

Er bod polisiâu ar waith, nid oeddent yn amlinellu sut y dylai staff weithredu mewn manylder. Roedd y polisi diogelu plant yn disgrifio amcanion diogelu yn gyffredinol yn hytrach na'r weithdrefn y dylai staff ei dilyn. Yn yr un modd, roedd y polisi diogelu oedolion yn cyfeirio at rai trefniadau i ddiogelu oedolion, ond nid y weithdrefn y dylai staff ei dilyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig y gwasanaeth ddisgrifio'n eglur y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe baent yn amau bod rhywun yn cael eu cam-drin.

Atal a Rheoli Heintiau, a Dadheintio (Safon 13)

Roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau ysgrifenedig a chyfredol. Roed hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o drefniadau lleihau croes-heintio yn y gwasanaeth. O ystyried mai'r bwriad yw darparu ystod o wasanaethau gofal iechyd, gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylai hefyd gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau unigol gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld, er mwyn cefnogi'r polisi cyffredinol a oedd ar waith. Dylai'r bolisiau hyn roi manylion am y trefniadau penodol ar gyfer pob math o wasanaeth gofal iechyd a ddarperir. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus roedd y clinig yn ei gynhyrchu. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas hefyd ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori a'r tai bach er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd peiriannau sebon ar gyfer golchi dwylo ar gael yn rhwydd i'r staff eu defnyddio, unwaith eto er mwyn lleihau croes-heintio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond offer wedi'u sterileiddio, i'w defnyddio unwaith, a ddefnyddir. Roedd hyn yn osgoi'r angen am offer glanhau a sterileiddio (dadheintio). O ran y gwasanaeth enwaedu gwrywod, rhagwelai'r rheolwr cofrestredig mai offer clinigol wedi'u sterileiddio, i'w defnyddio unwaith, fyddai'n cael eu defnyddio. Pe bai angen offer y gellir eu haildefnyddio, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fyddai dadheintio'r rhain. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n gwneud yn siŵr bod trefniadau priodol ar waith cyn darparu'r gwasanaeth.

Yn ystod taith o gwmpas y clinig, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus iawn.

Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15) a Threfniadau Cynllunio ar gyfer Argyfwng (Safon 4)

Nid oedd meddyginiaethau yn cael eu cadw yn y gwasanaeth. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor gan Gyngor Dadebru'r DU³ ynghylch darparu offer a chyffuriau mewn argyfwng a allai fod eu hangen.

Pe bai angen meddyginiaethau, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai cyfrifoldeb y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld fyddai hyn, gan gynnwys ysgrifennu presgripsiynau preifat ar gyfer meddyginiaethau. Rhaid amlinellu'r trefniant hwn o fewn polisi ysgrifenedig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig lunio a gweithredu polisi priodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a ddefnyddir yn y gwasanaeth.

Dylai'r unigolyn cofrestredig geisio cyngor gan Gyngor Dadebru'r DU ynghylch darparu cyffuriau ac offer mewn argyfwng.

Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch (Safon 22)

Canfom fod y practis wedi cymryd camau i adnabod peryglon ac i leihau'r risg o niwed.

Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi'u cwblhau a bod camau gweithredu wedi'u nodi i reoli ac i liniaru risg. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg gweithredol.

Gwelsom fod offer diogelwch tân wedi eu gosod o gwmpas y gwasanaeth a bod arwyddion clir yn dangos ble'r oedd yr allanfeydd tân. Golygai hyn fod cyfarpar a gwybodaeth ar gael i'r staff a'r cleifion fel y byddai modd iddynt adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân.

Ymdrin â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau (Safon 23)

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ysgrifenedig a chyfredol.

Roedd manylion ynglŷn â sut y gallai cleifion gyflwyno cwyn wedi'u cynnwys o fewn datganiad o ddiben y gwasanaeth a'r canllaw i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys amserlen ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn ogystal.

³ [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd unrhyw gwynion wedi'u derbyn ers i'r ystafelloedd ymgynghori agor.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r ystafelloedd ymgynghori a dangosai ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion. Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynghylch y wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno i ddangos bod pobl yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd (Safon 1) a Chymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd (Safon 6)

Y rheolwr cofrestredig oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r gwasanaeth ac roedd trafodaethau yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd y gwasanaethau a ddarperir yn y gwasanaeth ar adeg ein harolygiad yn unol ag amodau'r cofrestriad gydag AGIC. Roedd y dystysgrif gofrestru ar gael, ond nid oedd wedi'i harddangos mewn lle blaenllaw fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau. Aeth y rheolwr cofrestredig i'r afael â hyn cyn diwedd ein harolygiad.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael. Roedd y rhain yn amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol am y gwasanaeth yn ôl y rheoliadau. Fel y soniwyd eisoes, dylid diwygio'r ddwy ddogfen i adlewyrchu na fydd enwaedu gwrywod yn cael ei gynnig oni bai am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig. Tra bo manylion y rheolwr cofrestredig wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben, roedd angen cynnwys cymwysterau a phrofiad perthnasol y podiatrydd hefyd.

Wrth i'r gwasanaeth ddatblygu, bydd angen i'r datganiad o ddiben gynnwys nifer, cymwysterau perthnasol a phrofiad yr holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth gynnwys manylion am nifer, cymwysterau perthnasol a phrofiad y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi ymgymryd ag adolygiadau chwarterol o'r gwasanaeth ac fe welsom grynodedig ysgrifenedig a oedd yn brawf o hyn. Y bwriad o wneud hyn oedd er mwyn adnabod meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y gwasanaeth.

Recriwtio i'r Gweithlu ac Arferion Cyflogaeth (Safon 24), a Chynllunio Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygu Sefydliadol (Safon 25)

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd yna unrhyw staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth. Roedd y datganiad o ddiben yn nodi'n glir bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld yn gweithio yn y gwasanaeth ar sail hunangyflogedig.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi rhoi trefniadau ar waith i asesu addasrwydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n ymweld, cyn iddynt roi gwasanaethau i gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys gwirio bod unigolion yn gofrestredig â chyrff proffesiynol a gofyn i weld gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er bod trefniadau ar waith, gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig bod angen i ragor o ddogfennau a gwybodaeth fod ar gael, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau – er enghraifft, geirdaon ysgrifenedig, hanes cyflogaeth a llun diweddar o'r person. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn dangos addasrwydd aelod o staff i weithio yn y gwasanaeth ar gael i'w harchwilio ac, yn achos staff newydd, cyn iddynt gael dechrau gweithio yn y gwasanaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n gofyn i gael gweld tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn penderfynu a ddylai roi caniatâd i rywun weithio yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rheolwr cofrestredig yw gwneud cais a chael gafael ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu drefnu bod hynny'n digwydd ar ei ran, cyn caniatáu i berson weithio yn y gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau mai ef yw'r un sy'n gwneud ceisiadau am dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael gafael arnynt, neu drefnu bod hynny'n digwydd ar ei ran, cyn caniatáu i unrhyw berson newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn y gwasanaeth yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: **Newport Consulting Rooms**

Dyddiad yr arolygiad: **5 Medi 2016**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Rhaid cynnwys crynodeb o'r adborth a gasglwyd gan gleifion yn y canllaw i gleifion.	Rheoliad 7 (1) (e) Safon Ofynnol Genedlaethol 1	Bydd crynodeb o'r adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi yn y canllaw i gleifion.	Asim Ali	Tri mis
7	Mae angen i ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth adlewyrchu na fydd enwaedu gwrywod yn digwydd oni bai am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig.	Rheoliad 6 (1) Safon Ofynnol Genedlaethol 1	Bydd y datganiad o ddiben yn cael ei newid i adlewyrchu hyn.	Asim Ali	Tri mis

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Dylai gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig y gwasanaeth ddisgrifio'n eglur y weithdrefn y dylai staff ei dilyn pe baent yn amau bod rhywun yn cael eu cam-drin.	Rheoliad 16 (1) (b) Safon Ofynnol Genedlaethol 11	Gweithdrefnau diogelu i gael eu diweddarau â'r rhifau cyswllt lleol perthnasol.	Asim Ali	Tri mis
11	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig lunio a gweithredu polisi priodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a ddefnyddir yn y gwasanaeth. Dylai'r unigolyn cofrestredig geisio cyngor gan Gyngor Dadebru'r DU ynghylch darparu offer a chyffuriau mewn argyfwng.	Rheoliad 9 (1) (m) a 15 (1) (b) Safon Ofynnol Genedlaethol 15	Bydd polisi rheoli meddyginiaethau yn cael ei greu er mwyn rhoi sylw i'r holl bwyntiau a gafodd eu crybwyll. Cysylltir â'r Cyngor Dadebru a bydd unrhyw ofynion priodol yn cael eu gweithredu.	Asim Ali	Tri mis
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
12	Rhaid i ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth gynnwys manylion am nifer, cymwysterau perthnasol a phrofiad y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.	Rheoliad 6 (1) Atodlen 1 Safon Ofynnol Genedlaethol 1	Y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i gael eu diweddarau pan fo staff perthnasol yn cael eu cyflogi. Nid yw'r gwasanaethau wedi'u sefydlu ac yn weithredol ar hyn o bryd.	Asim Ali	Bob chwarter lle bo'n briodol

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
13	Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn dangos addasrwydd aelod o staff i weithio yn y gwasanaeth ar gael i'w harchwilio ac, yn achos staff newydd, cyn iddynt gael dechrau gweithio yn y gwasanaeth.	Rheoliad 21 (2) (d) Atodlen 2 Safon Ofynnol Genedlaethol 24	Caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei chofnodi yn unol â'r gofynion.	Asim Ali	Tri mis ac yn barhaus
13	Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau mai ef yw'r un sy'n gwneud ceisiadau am dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael gafael arnynt, neu drefnu bod hynny'n digwydd ar ei ran, cyn caniatáu i unrhyw berson newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.	Rheoliad 21 (3) Safon Ofynnol Genedlaethol 24	Sicrhau bod unrhyw ddarparwyr gwasanaeth yn y dyfodol yn meddu ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadw'r wybodaeth honno yn yr adeilad.	Asim Ali	Tri mis ac yn barhaus

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):Asim Ali.....

Teitl:Mr.....

Dyddiad: 28 Hydref 2016.....